

PALASU HWY

CYLLID



SUT YDYM NI'N TALU AM EIN PALAS HWYL?

Mae llawer o Balasau Hwyl wedi dod o hyd i gyllid yn lleol, ni chododd 82% o Balasau Hwyl yn 2018 unrhyw gyllid ychwanegol i greu eu Palas Hwyl. Mae Palasau Hwyl yn hyper-leol, felly gofynnwch yn lleol.

Beth mae rhai Palasau Hwyl wedi'i wneud yn y gorffennol:

- Gofynnodd Palas Hwyl Lido Brockwell am nawdd gan fusnesau lleol, gan godi arian a llwyth o gymorth mewn da hefyd.
- Aeth Whitstable Museum of Fun i gyfarfod y cyngor lleol i ofyn am arian i dalu costau gweithdy - a gwnaethant lwyddo.
- Derbyniodd Palas Hwyl BedPop yn Bedford nawdd gan gwmni lleol, a darparodd llawer o leoliadau lleol eu gofodau am ddim.
- Derbyniodd Palasau Hwyl Llyfrgelloedd Lambeth Grantiau Celfyddydau'r Cyngor Celfyddydau i gefnogi eu 11 o Balasau Hwyl hyper-leol.
- Derbyniodd Palas Hwyl Dragon's Den yn Sittingbourne gefnogaeth gan eu grŵp Rotari lleol i helpu darparu dŵr a thrydan i'w lleoliad nad oedd ganddo gyfleustodau.
- Derbyniodd rhai Palasau Hwyl grantiau Llywodraeth Leol bach, cafodd rhai eraill gymorth gan leoliadau lleol neu roeddent wedi'u cartrefu mewn lleoliadau a dalodd y costau eu hunain.

Eich Cyngor Lleol

Siaradwch â'ch Cyngorwyr, gwahoddwch nhw i'ch cyfarfodydd. Bob amser mae yna gronfeydd maen nhw'n gwybod amdanynt nad ydym ni'n ymwybodol ohonynt. Mae dod i nabod gwleidyddion lleol bob amser yn werth chweil, ni fyddent yn gwneud y swydd os nad oeddent yn poeni dim - dangoswch iddynt ei fod yn bwysig i chi hefyd.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Os oes gan yr hyn rydych yn ei wneud unrhyw hanes lleol, storïau lleol, mae'n werth siarad â nhw. Os ydych yn gwneud gwaith digidol sy'n ymwneud â threftadaeth mae hynny'n wych hefyd. [Cronfa Dreftadaeth y Loteri](#)



Cynghorau'r Celfyddydau – ACE, CCC, CS, ACNI

Mae holl Gyngorau Celfyddydau'r Deyrnas Unedig yn credu y dylai fod gan bawb y cyfle i brofi a chael eu hysbrydoli gan y celfyddydau - rhywbeth sy'n gweddu'n dda i Balasau Hwyl. Rho gip ar y canllawiau ar eu gwefannau. Ceisiwch drefnu cyfarfod neu o leiaf galwad ffôn gyda rhywun yn swyddfa eich Cyngor Celfyddydau rhanbarthol. Mae bob amser yn dda i greu cysylltiad a byddwch yn derbyn cyngor defnyddiol.

[Cyngor Celfyddydau Lloegr](#)

[Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru](#)

[Creative Scotland](#)

Ymddiriedolaeth People's Postcode

Os yw eich Palas Hwyl yn rhywbeth sy'n cynnal ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy gydol y flwyddyn, ac mae llawer yn gwneud hyn, efallai y byddant yn addas i chi:

[Ymddiriedolaeth People's Postcode](#)

Ymddiriedolaeth People's Health

Mae'r gronfa Active Communities ar gyfer grwpiau cymunedol a sefydliadau nid er elw, sydd ag incwm o lai na £350,000 neu £350,000 ar gyfartaledd dros ddwy flynedd. Fe'i anelir at brosiectau sy'n ceisio buddsoddiad rhwng £5,000 a £50,000 ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at ddwy flynedd. Maent yn chwilio am brosiectau bach a lleol, a ddylunnir ac a redir gan bobl leol. [Mwy o wybodaeth.](#)

Cronfa Gymunedol Aviva

Mae Cronfa Gymunedol Aviva yn cynnig cyllid ar gyfer achos pwysig yn eich cymuned - fel eich Palas Hwyl. Gallwch gofrestru prosiect ar ran eich cymuned a dweud wrthynt ba wahaniaeth y gallai'r cyllid gwerthfawr hwn ei wneud. [Mwy o wybodaeth](#)

Gwybodaeth gyllido benodol ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig

[Foundation Scotland](#)

[Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Yr Alban](#)

[Sefydliad Cymunedol Gogledd Iwerddon](#)

[Sefydliad Cymunedol Cymru](#)

[Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Lloegr](#)

Voluntary Arts

Er nad yw'n gorff cyllido ei hun, mae Voluntary Arts yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol a ddiwedderir yn rheolaidd am gyllid ac adnoddau [Voluntary Arts](#)

DS - mae'r wybodaeth hon i gyd yn newid yn gyflym ac yn aml iawn, mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennyh unrhyw gwestiynau.